

# Cyngor Tref Pwllheli

---

## DRAFT

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWYD AM 6:30 y.h. NOS IAU, 5ED O FEDI, 2019 YN SIAMBR Y CYNGOR, STRYD PENLAN, PWLLHELI.

**Cof; - 0109/19** - Presennol.

Cynghorwyr , Eric W. Roberts, M. Sol Owen, Parch Ioan Gruffydd, D. O. Jones, Mici Plwm, Hefin Underwood, Elfed Gruffydd, Dr Iwan Edgar, A Williams, Elin Hywel. Michael Sol Owen. Mike Parry, Dylan Bullard.

Clerc E. Price.  
.....

**Cof; - 0209/19** - Ymddiheuriadau.

Cynghorwyr; Ffiona Adams, Henry Rees Williams, E. J. Hughes.  
.....

**Cof; - 0309/19** - Datgan Diddordeb.

Dim diddordeb yn cael ei ddatgan.  
.....

**Cof; - 0409/19** - Aelodau'r cyhoedd yn bresennol.

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.  
.....

**Cof; - 0509/19** - Gair gan y Maer.

Gair y Maer yn y llyfr cofnodion.  
.....

**Cof;-0609/19** - Materion cyfansoddiadol a staff.

Clerc yn datgan bod cynnydd yn y gwaith gall arwain iddo ofyn am ychwaneg o oriau.  
.....

**Cof; - 0709/19** - Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Gorffennaf, 2019 fel rhai cywir a llofnodwyd hwy yn unol ar gyfraith.  
.....

Cof;- 0809/19 - Adroddiad clerc.

- Llwybr cyhoeddus Ben Garn ac i lawr at yr afon. Wedi cael cytundeb perchennog y tir i ddefnyddio tractor i ail agor y llwybr ac i agor llwybr o gwmpas y Garn gan ei fod yn dechrau cau mewn llyfdd. ( Y tractor o gwmpas y Garn i ddigwydd unwaith y flwyddyn). Penderfynu cytuno ar yr amcan bris i dorri.
- Bordau gwybodaeth y dref. Mae un wrth y feddygfa gyda chlo wedi ei thynnu. Penderfynu cael clo newydd i'r rhai sydd ddim yn gweithio a chael y gorriad ym meddiant y clerc.
- Disgwyl am fynediad i Harvey`s i ddarfod gosod y WI FI. Bydd y WI FI yn fyw yn y dref Dydd Llun 9fed o Fedi ond angen disgwyl iddo gael ei osod yn Harvey`s cyn bydd yn fyw yn y Maes. Penderfynu cael yr awr gyntaf o`i ddefnydd am ddim. Cytuno ar £3 y diwrnod neu £10 yr wythnos ar ôl yr awr gyntaf. Bydd modd newid y pris wedi cael gwybodaeth o sut mae`n cael ei ddefnyddio.
- Arwyddion y dref. Awgrymu cyfarfod is bwyllgor. Clerc i drefnu. Aelodau`r is bwyllgor mwynderau yw Maer Cyng. Eric Wyn Roberts, Dirprwy Maer Cyng. Mici Plwm, Cynghorwyr Elfed Gruffydd, Elin Hywel, Hefin Underwood, Dylan Bullard, Alan Williams.
- Toiled- ateb swyddog Sir i`r cwestiwn "pam bod gwaith yn cymryd cymaint o amser?" - problem gyda gwaith ym manau eraill yn dal gwaith toiled Caffi Melyn yn ôl. Penderfynu ail lythyru a gofyn a oes cwtogiad yng nghyfraniad y Cyngor at y toiledau oherwydd yr amser roedd ddim ar gael. Roedd barn bod angen eglurhad mwy clir o`r rheswm pam roedd y gwaith wedi cymryd cymaint o amser. Penderfynu clerc i lythyru.
- Barbio Glan Don a manau eraill y dref- swyddog yn edrych i mewn i`r gwaith blêr. Clerc i ail llythyru gan nad oes ateb wedi ei dderbyn.
- Dim ateb parthed "pam mae pompren o Bont Solomon i Lôn Cob Bach yn cymryd cymaint o amser i`w thrwsio". Clerc i lythyru i ofyn am eglurhad o`r sefyllfa.
- Partneriaeth Pwllheli. Clerc yn teimlo bod awydd gan rai yw ail ddechrau. Ateb o dan rif 10 yn y rhaglen.
- TCC. Ni fydd rhagor o arian i dalu am y cynllun yn y flwyddyn yma. Bydd y camerâu ychwanegol yn eu lle Medi/ Hydref. Mae trafodaeth am ddigwydd ar y ffordd fwyaf teg i benderfynu beth fydd cyfraniad Cyngor Tref. Bosib bydd taliad fesul poblogaidd yn cael ei awgrymu. Hefyd mae gwahoddiad i fynychu eu safle rheoli yng Nghaernarfon Medi 25. - Clerc i drefnu mynediad 3 30.
- Asedau`r Cyngor ar y bwrdd. Clerc wedi tynnu`r eiddo sglefrio i ffwrdd. Derbyn yr adroddiad.
- Prydles parc sglefrio. Penderfynu cadw`r brydles. Roedd barn bod angen rhagor o weithgareddau i bobl ifainc yn y dref.
- Cynnal a chadw'r Siambr. Adroddiad y clerc wedi ei rannu.

## Cyngor Tref Pwllheli

---

Penderfynu'r Cyng. Michael Sol Owen ar Cyng. Mike Parry cwrdd ar glerc i fynd trwy opsiynau.

- Cynllun ail llenwi boteli Dwr a chael ffynnon dwr. Penderfynu clerc symud ymlaen gyda'r prosiect.
- Llythyr o ddiolch gan Elusen Ambiwylans Cymru parthed rhodd o £238.73 yn dilyn Sul y Maer a Chapel y Drindod ar y bwrdd.

Byddaf ar wyliau 10 fed Fedi i 20 Medi.

Mae banciau yn cysoni.

Mae arian y Bond nawr yn y cyfrif Uchel ac arian oedd yn cyfrif y Maer sef £1519.08 yn cyfrif y Trysorydd. Angen ysgrifennu i gau cyfrif y Maer.

Byddaf yn dechrau ar gyllid blwyddyn nesaf yn yr Hydref. Byddaf yn galw cyfarfod is bwyllgor cyllid. Bydd y clerc angen blaenoriaethau'r Cyngor parthed prosiectau i weithio ar gyllid 2020-21.

.....

### **Cof;-0909/19 - Cynllunio.**

- 1) C19/0717/45/LL - Newid defnydd i gampfa. Uned 3 Gweithdai Marina Pwllheli, Ystâd Ddiwydiannol Glandon, Pwllheli LL53 5YW . Cytuno.
- 2) C19/0763/45/LL - Addasiad i dy annedd, yn cynnwys codi estyniad llawr cyntaf, creu feranda i'r blaen, trosi'r modurdy dwbwl yn rhan o'r tŷ a chodi modurdy dwbwl newydd. Maes yr Wern, 15 Glan Cymerau, Pwllheli. LL53 5PU. **Cytuno.**
- 3) C19/0744/45/LL - Gwaith tirlunio ar gyfair ymestyn mynwent. Capel Deugorn, Deneio, Pwllheli. LL53 5UD. Cytuno.

.....

### **Cof;-1009/19.**

1. Strategaeth llifogydd; Cyng. Mike Parry - Cynghorydd yn adrodd bod yn bwysig i unigolion ar Gyngor gwneud sylw o'r adroddiad.
2. Gorsaf Heddlu; Cyng. Mike Parry - Derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd parthed neb yn yr orsaf pan aethon yna, ac roedd yn canu'r gloch am 20 munud cyn cael ateb. Hefyd tynnwyd sylw i'r ffaith bod cyn lliad o'r Heddlu ar gael i Bwllheli a Pen Llyn. Os yw faint o'r Heddlu sydd ar gael yn cael ei weithio fesul poblogaidd, nid yw hyn yn cymryd ystyried ardal gwledig. Clerc i lythyru'r comisiynydd gyda'r sylwadau a gofyn am gyfarfod chwarterol gyda'r Heddlu.
3. Loteri Fawr; Cyng. Mike Parry - Mae'r cynghorwyr Mike Parry ac Elin Hywel wedi cyfarfod gyda swyddogion y Loteri i ofyn am gyngor i baratoi cais am cydlynnydd cymunedol. Yn dilyn cyngor bod angen tystiolaeth o'r gwreiddiau cyn symud ymlaen gydag unrhyw cais mae'r Cyng Mike Parry am drefny cyfarfod gyda mudiadau'r dref.
4. Lymphiau atal cyflymder y promenâd; Cyng. Mike Parry - mae llawer mewn cyflwr drwg. Penderfynu i'r clerc lythyru i dynnu sylw at hyn.

.....  
**Cof;-1109/19.**

Contract i swyddog cynnal a chadw gyda'r oriau ychwanegol bydd ei angen i'r clerc rheoli. Cyng. Elin Hywel. Penderfynu trafod yn is bwyllgor mwynderau. Roedd gofyn i'r Cyng. Elin Hywel rhoi ei chynnig ar bapur i hwyluso trafodaeth.

.....

**Cof;-1209/19** - Polisi laith siop Ffactori ac eraill ym Mhwllheli. Cyng. Elfed Gruffydd. Penderfynu clerc llythyru'r cwmni i ofyn beth yw eu Polisi laith Cymraeg a`u arwain at lefydd lle mae cymorth ar gael.

.....

**Cof;-1309/19** - Peipiau o Bont Solomon i Lon Co-bach. Cyng. Henry Rees Williams.

Penderfynu rhoi sylw i edrych ar rheolau sefydlog y Cyngor mewn is pwyllgor. Yn y cyfamser os na fydd Cynghorwr yn bresennol 3 gwaith yn olynol bydd angen ofyn i'r Clerc ail gyflwyno'r item.

.....

**Cof; - 1409/19** - Cais gan Gyngor Gwynedd i rannu costau symud safle bws ASDA.

Ar ôl trafodaeth frwd penderfynu i'r clerc lythyru i fynegi pryder am lechyd a diogelwch symud y safle.

.....

**Cof;- 1509/19** - Marchnad Pwllheli - llythyr ar y bwrdd. Swyddog y Sir yn gofyn a oes diddordeb gan Gyngor y Dref neu fudiad arall cymryd rhagor o gyfrifoldeb am redeg y farchnad. Penderfynu cadw'r trefniadau fel ac y maent.

.....

**Cof;-1609/19** - Dilyniant i'r Faner - Cyng. Elfed Gruffydd. Penderfynu cael trafodaeth yn is bwyllgor Mwynderau.

.....

**Cof;-1709/19** - Cais am gymorth ariannol gan Blas Heli, parthed Regata. Penderfynu llythyru i ddweud bod y cais yn rhy hwyr y flwyddyn yma ond yn hapus i dderbyn cais flwyddyn nesaf.

## Cyngor Tref Pwllheli

---

.....

Cof;-1809/19 - Materion angen trafodaeth.

- Tudalen Facebook ar gyfer y dref. Penderfynu cael tudalen er mwyn hwyluso mynediad i'r WI Fl.

.....

**Cof;-2109/19** – Derbyniadau.  
Cytunwyd.

750	Rhent Adams. X tri.	CR
1519,08	O gyfrif y Maer.	Trosglwyddo.
196.68	Sul y Maer.	CR

.....

**Cof;-2309/19** –Taliadau.  
Cytunwyd.

1,110	Atkins - barbio.	203150
3,963.60	Argraffdu- baneri.	203151
350	Cwrs CILCA Clerc.	203152
108.79	Llyfr "Local Council administration."	203153
36	Seaside signs – arwyddion llwybrau cyhoeddus.	203154
325.84	Tyddyn Sachau – tybiau, blodau.	203155
2600	Cyngor Gwynedd – cyfraniad TCC.	203156
2545.87	Zurich – yswiriant y Cyngor.	203157
339.60	Argraffdu – baner Guto Dafydd.	203158
1,110	Atkins – barbio.	203159
50	Arian parod.	203160
150	Lwfans Cynghorwr.	203161
937.06	Costau gweinyddol y Siambr.	sieciau
370.50	HMRC.	203164

Daeth y Cyngor i ben am 8 40 y.h.

Cynhelir Cyfarfod Nesaf y Cyngor Tref Nos Iau 3ydd Hydref 2019.

Bydd rhaglen y cyfarfod yma yn cau Medi 26 2019.